# SL(5)561 – Rheoliadau Deunyddiau Planhigion Llysieuol a Hadau (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio—

- Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995 (O.S. 1995/2652) (o ran Cymru yn unig) ("Rheoliadau 1995"), a
- Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012 (O.S. 2012/245) (Cy. 39) ("Rheoliadau 2012").

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn (EU) 2019/990 sy'n diwygio'r rhestr o genera a rhywogaethau yn Erthygl 2(1)(b) o Gyfarwyddeb y Cyngor 2002/55/EC, yn Atodiad II i Gyfarwyddeb y Cyngor 2008/72/EC ac yn yr Atodiad i Gyfarwyddeb y Comisiwn 93/61/EEC (OJ Rhif L 160, 18.6.2019, t. 14) ("Cyfarwyddeb 2019").

Mae Rheoliadau 1995 yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2008/72/EC ar farchnata deunyddiau lluosogi a phlannu llysiau, ac eithrio hadau (OJ Rhif L 205, 1.8.2008, t. 28), a Chyfarwyddeb y Comisiwn 93/61/EEC sy'n nodi'r atodlenni sy'n nodi'r amodau sydd i'w bodloni gan ddeunyddiau lluosogi a phlannu llysiau, ac eithrio hadau yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 2008/72/EC (OJ Rhif L 250, 7.10.1993, t. 19). Mae Rheoliadau 2012 yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2002/55/EC ar farchnata hadau llysiau.

Mae rheoliad 2 yn diweddaru diffiniadau yn Rheoliadau 1995 er mwyn sicrhau bod cyfeiriadau at Gyfarwyddebau 2008/72/EC a 93/61/EEC yn cyfeirio at y Cyfarwyddebau hynny fel y'u diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2019.

Mae rheoliad 3 yn diwygio'r rhestr o blanhigion llysieuol a'u henwau cyffredin cysylltiedig yn Atodlen 1 i Reoliadau 2012 (hadau y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt) er mwyn ei gwneud yn eglur pan fo pob amrywogaeth o rywogaeth wedi ei chynnwys a phan mai dim ond amrywogaethau penodol o rywogaeth sydd wedi eu cynnwys. Mae hefyd yn darparu ar gyfer cymhwyso Rheoliadau 2012 i hybridiau o'r rhywogaethau a'r grwpiau o blanhigion llysieuol a restrir.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 (yn ychwanegol at adran 16(1) ac (1A) o Ddeddf Amrywiaethau a Hadau Planhigion 1964). Bydd y Rheoliadau hyn yn rhan o

gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (h.y. diwedd y cyfnod gweithredu, ar 31 Rhagfyr 2020).

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**Mehefin 2020**